



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Gwasanaethau Terfynu Beichiogrwydd i fenywod o Ogledd Iwerddon

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2018  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 09 Chwefror 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**Trosolwg** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud Cyfarwyddyd ysgrifenedig sy'n cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i roi mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd i fenywod o Ogledd Iwerddon fel pe baent yn preswyllo fel arfer yn eu hardal, h.y. yn yr un modd ag y darperir y gwasanaethau hyn i fenywod sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.

**Sut i ymateb** Cewch ddefnyddio'r gofod isod i ymateb neu e-bostio i'r cyfeiriad canlynol:

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Iechyd Menywod a Phlant  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [womenshealth@gov.wales](mailto:womenshealth@gov.wales)

**Diogelu data** Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch chyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn

ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, byddai hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

Ym Mhrydain, mae Deddf Erthyly 1967 (Deddf 1967) yn llywodraethu sut mae gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn cael eu darparu. Mae'n fater a gedwir yn ôl o dan y setliad datganoli presennol, ac felly nid yw wedi ei ddatganoli i Weinidogion Cymru. Er bod erthyliad yn derm sydd ag ystyr cyfreithiol iddo, mae 'terfynu beichiogrwydd' yn derminoleg glinigol fwy sensitif; gan hynny, dyma'r derminoleg a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, a dyma'r derminoleg a ddefnyddir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth terfynu beichiogrwydd ar gael i unrhyw fenyw sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, neu unrhyw fenyw y mae angen triniaeth frys arni tra bo'n yn aros yng Nghymru, cyn belled â bod y meini prawf ar gyfer terfynu beichiogrwydd yn gyfreithiol, fel y'u nodir yn Neddf 1967, yn cael eu bodloni.

Ni cheir darparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd ond mewn un o ysbytai'r GIG neu mewn clinig sydd wedi ei drwyddedu, ac mae'r gwasanaeth ar gael am ddim gan y GIG i fenywod sydd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru.

Nid yw Deddf 1967 yn berthnasol i Ogledd Iwerddon, ac mae darparu gwasanaeth terfynu beichiogrwydd yn fater datganoledig yno. Nid yw terfynu beichiogrwydd yn cael ei ganiatáu na'i ariannu ond o dan amgylchiadau cyfyng iawn, e.e. os bydd bywyd menyw mewn perygl neu fod perygl parhaol neu ddifrifol i'w hiechyd corfforol neu feddyliol. Nid yw trais rhywiol, cam-drin rhywiol o fewn y teulu (llogach) nac abnormaledd yn y ffetws, yn amgylchiadau sy'n caniatáu i feichiogrwydd gael ei derfynu'n gyfreithlon yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn disgrifio cynigion Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn bosibl i fenywod sy'n preswyllo fel arfer yng Ngogledd Iwerddon ddefnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru.

## Y newidiadau a gynigir

Yn y ddadl ar Araith y Frenhines yn gynharach eleni, cefnogodd dros 50 o Aelodau Seneddol o wahanol bleidiau yr alwad a arweiniwyd gan Lafur i ganiatáu i fenywod o Ogledd Iwerddon ddefnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd y GIG yn Lloegr.

Anfonodd y Gwir Anrhydeddus Justine Greening AS, y Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau, lythyr at bob Aelod Seneddol ar 29 Mehefin, ynghylch darparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn Lloegr i fenywod o Ogledd Iwerddon. Bydd y gost yn cael ei hariannu drwy Swyddfa Gydraddoldebau'r Llywodraeth, gan ganiatáu i'r Adran Iechyd gomisiynu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn Lloegr ar gyfer menywod o Ogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn gweithio i gyflwyno darpariaeth er mwyn i fenywod o Ogledd Iwerddon allu defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yn yr Alban.

Yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog yn y Cynulliad ar 4 Gorffennaf, eglurodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddarparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru i fenywod o Ogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai menywod o Ogledd Iwerddon allu cael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd yn yr un modd â menywod sy'n byw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu'r gwasanaethau hyn fel a ganlyn:

Mae Adran 12 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Bwrdd Iechyd Lleol i ymarfer unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2006. Mae'r swyddogaethau hynny'n cynnwys darparu gwasanaethau meddygol a gwasanaethau eraill ar gyfer gofalu am fenywod beichiog.

Gall Gweinidogion Cymru wneud Cyfarwyddyd ysgrifenedig sy'n newid y prawf preswyllo arferol o dan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009, er mwyn galluogi dinasyddion y DU sy'n preswyllo fel arfer yng Ngogledd Iwerddon ac sydd am y tro yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol i gael eu trin pe baent yn preswyllo fel arfer yn ardal y Bwrdd at ddibenion cael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud Cyfarwyddyd ysgrifenedig o'r fath, yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i ddarparu mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd i fenywod o Ogledd Iwerddon fel pe baent yn preswyllo fel arfer yn eu hardal, h.y. mynediad yn yr un modd ag a ddarperir ar gyfer menywod sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Byrddau Iechyd Lleol i bennu'r llwybr mwyaf priodol i fenywod o Ogledd Iwerddon ei ddilyn er mwyn cael defnyddio gwasanaethau terfynu beichiogrwydd yng Nghymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid adolygu'r trefniadau chwe mis ar ôl iddynt ddod i rym, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

Rydym yn awyddus i gael eich barn ar y newidiadau arfaethedig hyn. Cewch ddefnyddio'r gofod isod i nodi eich ymateb neu cewch ei e-bostio i'r cyfeiriad canlynol:  
[womenshealth@gov.wales](mailto:womenshealth@gov.wales)

**Ffurflen Ymateb  
i'r  
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol)

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Nodwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.